Sustainable Development Commission

Healthy Futures

# Progress in Practice

## Strategaeth Cynaliadwyedd Integredig Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg

**Mae rheoli gwastraff cynaliadwy, cadwraeth ynni a phartneriaethau cymunedol yn elfennau allweddol o strategaeth cynaliadwyedd integredig Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg**

### Crynodeb


Mae Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg wedi llwyddo i integreiddio amcanion y GIG o ran rheolaeth gynaliadwy o ynni, gwastraff, trafnidaeth a chaffael.

Nod ei strategaeth cynaliadwyedd integredig yw gwella lefel cysur staff a chleifion tra'n lleihau effeithiau amgylcheddol negyddol, megis gollyngiadau nwyon tŷ gwydr a gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi.


### Gwastraff

Mae mentrau rheoli gwastraff yn seiliedig ar 'hierarchaeth wastraff' o leihau, ailddefnyddio, ailgylchu, cynhyrchu ynni a gwaredu.

**Lleihau**: Fel rhan o raglen ehangach y GIG, newidiodd yr Ymddiriedolaeth o ddefnyddio bagiau polythen i fagiau metalosin cryfach a theneuach, gan leihau'r defnydd o olew crai i wneud y bagiau a phwysau'r deunydd pacio gwastraff clinigol a anfonir i safleoedd tirlenwi. Mae adran gaffael yr Ymddiriedolaeth hefyd yn sicrhau y caiff gwastraff ei leihau yn ei ffynhonnell drwy ddilyn egwyddorion y Fenter Gaffael Gynaliadwy yn y Sector Cyhoeddus.

**Ailddefnyddio**: Adnewyddir offer TG a fe'i ailddefnyddir mewn ysgolion. Hefyd anogir cyflenwyr i ddarparu deunydd pacio y gellir ei ailddefnyddio lle bo'n bosibl.

**Ailgylchu**: ailgylchir 9.6 % o wastraff cyffredinol bellach. Ailgylchir 30 tunnell o wastraff deunydd pacio, 30 tunnell o wastraff cyfrinachol a 15 tunnell o wastraff arall (yn cynnwys tiwbiau fflwroleuol, oergelloedd a nwyddau gwynion, papur o swyddfeydd, cwpanau plastig, metel sgrap a batris) y flwyddyn.

**Cynhyrchu ynni**: anfonir offer miniog clinigol i ffatri Pyrolysis Nwy i'w trawsnewid i mewn i ynni. Mae'r Ymddiriedolaeth bellach yn defnyddio cyfleusterau gwaredu lleol ar gyfer gwastraff clinigol cymunedol, sydd wedi lleihau costau a chludiant ac yn cynhyrchu cyflogaeth leol.

**Gwaredu**: mae crynodiaduron gwastraff newydd yn lleihau lle ar gyfer storio gwastraff, yn lleihau costau trafnidiaeth ac yn lleihau'r angen i symud cerbydau ar y safle 65%.

(Parhad drosodd)




### Dysgu Strategol

- Mae timau amlddisgyblaethol yn helpu i hyrwyddo'r agenda gynaliadwyedd. Er enghraifft, datblygodd Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg y gr·p defnyddwyr ynni a'r gr·p llywio rheoli amgylcheddol.
- Gall codi ymwybyddiaeth staff, cleifion a chymunedau lleol yngl·n â datblygu cynaliadwy helpu i newid ymddygiad.

**Cysylltiadau a sefydliad a gymerodd ran:** Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg (www.nglam-tr.wales.nhs.uk), Biffa (www.biffa.co.uk), Dalkia (www.dalkia.co.uk) a'r Cynllun Achredu Effeithiolrwydd Ynni (www.natenergy.org.uk/eeas)


**Cyswllt:**
**Peter White**, Swyddog Amgylcheddol, Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg, Ysbyty Tywysog Siarl, Merthyr Tudful, CF47 9DT, Ffôn: 01685 728769, Ffacs: 01685 728628, Ebost: Peter.White@nglam-tr.wales.nhs.uk

Sustainable Development Commission

Healthy Futures

# Progress in Practice

## Ynni


Agorodd yr Ymddiriedolaeth ganolfan ynni ym mis Ebrill 2004. Ariannwyd hon gan gontract menter cyllid preifat blaenllaw gwerth £1m mewn cydweithrediad â Dalkia. Mae'r gosodiadau newydd yn cynnwys peiriant gwres a phwer cyfunedig 500kW a boeleri sy'n defnyddio ynni'n effeithiol; mae'r system hon yn defnyddio'r gwres sydd dros ben i wresogi'r ysbyty. Hefyd mae gan yr Ymddiriedolaeth system gyfrifiadurol newydd i reoli ynni adeiladau. Rhannwyd yr ysbyty'n 47 o barthau, a rheoleiddir tymheredd pob parth gan y system. Gosodwyd goleuadau sy'n defnyddio ynni yn effeithlon hefyd.

Yn gyffredinol mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud arbediadau ynni o 10% ac wedi lleihau gollyngiadau carbon deuocsid 3,968 tunnell y flwyddyn. Mae arbediadau ariannol yn cynnwys £6,000 y mis yn sgîl leihau mewnforio ynni, a £34,000 y flwyddyn o'r ardoll newid yn yr hinsawdd.

Ym mis Medi 2005, derbyniodd yr Ymddiriedolaeth achrediad gan y Cynllun Achredu Effeithlonrwydd Ynni, sef yr ail Ymddiriedolaeth yn unig yng Nghymru i dderbyn yr anrhydedd hwn.

## Codi ymwybyddiaeth

Mae staff a chymunedau lleol yn cymryd rhan mewn cyfres o ddigwyddiadau, yn cynnwys Gwobr Amgylcheddol flynyddol yr Ymddiriedolaeth (mewn partneriaeth â Biffa) ar gyfer plant ysgol i gynllunio posteri codi ymwybyddiaeth am Wythnos Amgylchedd GIG Cymru. Mae'r wythnos o ddigwyddiadau'n cynnwys diwrnodau penodol yn ymdrin ag ynni, trafnidiaeth a gwastraff.




## Enillwyr Gwobrau

**Yn 2005 enillodd yr Ymddiriedolaeth wobrau am Ddinasyddiaeth Gorfforaethol Dda gan yr Health Service Journal a Rheoli Gwastraff Cynaliadwy yn y Sector Cyhoeddus gan rwydwaith ARENA, Cymru.**







**Cyswllt:**

**Peter White**, Swyddog Amgylcheddol, Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg, Ysbyty Tywysog Siarl, Merthyr Tudful, CF47 9DT, Ffôn: 01685 728769, Ffacs: 01685 728628, Ebost: Peter.White@nglam-tr.wales.nhs.uk